PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 18 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowden, Davies, Hinchey, Lent, Lister, Molik a/ac Weaver |

14 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Sureen Kutubi (Cynghorydd) a dywedodd y Cynghorydd Hinchey y byddai'n hwyr.

15 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

16 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf yn gywir, yn amodol ar wneud un addasiad, sydd mewn print cam a bras yn y cofnodion: mae cofnod 4 pwynt bwled 4 wedi ei ddileu a'i ddisodli gan 'Bydd Aelodau'n nodi'r rhagor o arian a roddir i gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol eleni *2018-19*, sef £7.2 miliwn i helpu â'r galw ychwanegol am wasanaethau i bobl agored i niwed. *Dyrennir rhan fwyaf yr arian ychwanegol hwn (£5.6m neu gynnydd gan 11.8%) i'r Gwasanaethau Plant yn benodol i gynorthwyo â'r cynnydd sylweddol sydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal trwy Gymru a'r DU.'*

Llofnododd y Cadeirydd y cofnodion.

17 : 'BRIGHT SPOTS' - EICH BYWYD, GOFAL CANFYDDIADAU A'R CAMAU NESAF.

Bu i'r Cadeirydd groesawu Debbie Martin-Jones (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Arbenigol), Jane Jansen (Rheolwr Tîm a'r Prif Weithiwr Cymdeithasol), Steve Jenkins (Prif Weithiwr Cymdeithasol), Lisa Kenniford (Rheolwr Tîm, Plant sy'n Derbyn Gofal tîm dros 14)), Kayleigh Knox (Prif Weithiwr Cymdeithasol) a Cara Birch (Prif Weithiwr Cymdeithasol, tîm Plant sy'n Derbyn Gofal 0-14) i'r cyfarfod i gyflwyno'r ymateb i'r Arolwg 'Bright Spots' 2018 trwy gyfrwng y cyflwyniad hwn.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cyfeiriodd Aelodau at ganfyddiadau arolwg – mae merched yn dioddef lles gwaeth ac yn dioddef mwy o fwlio na bechgyn a sylwyd bod hyn yn berthnasol i bobl ifanc yn gyffredinol ac nid yn unig plant sy'n derbyn gofal. Roedd hi'n bwysig ystyried anghenon unigol y person ifanc; yn y tîm mae rhai modelau rôl benywaidd cryf, sy'n arwain trwy enghraifft ac a allant gynnig cymorth go iawn.

Mae hefyd yn bwysig datblygu dealltwriaeth am ystum y bwlio, er enghraifft pam maent yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio ac sut caiff y bwlio ei fynegi.

- Mynegodd Aelodau bryderon dros nifer y newidiadau lleoliad a chawsant wybod nad yw'r newidiadau bob tro'n andwyol i'r person ifanc; mae rhai'n cychwyn mewn rhyw fath o lety diogel, yn symud i gartref plant ac wedyn i leoliad maethu.  Mae newidiadau cadarnhaol.

- Nododd 22% o'r bobl ifanc y bu ganddynt dri neu ragor o weithwyr cymdeithasol yn y flwyddyn ddiwethaf.  Cafodd Aelodau wybod er bod yr ysbryd yn uchel yn y Gwasanaeth Derbyn Gofal, mae rhai anawsterau'n dal i fod o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.  Ystyrir gwybodaeth o ganlyniad i gyfweliadau gadael er mwyn ceisio deall pam mae gweithwyr cymdeithasol yn gadael a gosod mecanweithiau mewn lle i allu cadw staff yn well.

  Dywedwyd wrth Aelodau bod 38 swydd newydd wedi eu creu yn y gwasanaeth; fodd bynnag, derbyniwyd bod llwyth achos gweithiwr cymdeithasol yn llawer mwy nag y dylai fod.  Ar hyn o bryd 18 yw llwyth gwaith gweithiwr cymdeithaso; fodd bynnag, mae'n 28 yn y gwasanaeth plant sy'n derbyn gofal. Yr nifer a argymhellodd yr Arglwydd Laming yw 15.

- Roedd Aelodau'n ddigalon ynghylch yr wybodaeth a gafwyd am ail gyfleoedd a chawsant wybod bod staff yn cynnig cyfle wedi cyfle. Fodd bynnag, derbyniwyd bod meysydd i'w gwella, yn arbennig mewn ysgolion.

- Gofynnwyd i aelodau beth mwy y gallent ei wneud, fel Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau Etholedig, i helpu cefnogi plant sy'n derbyn gofal.  Dywedodd aelodau bod angen mwy o leoliadau maeth priodol er mwyn cynnig bywyd mor normal â phosibl, ystod well o ddarpariaeth llety a rhagor o Weithwyr Cymdeithasol oherwydd y bu cynnydd gan ychydig dros 300 o blant sy'n derbyn gofal yn y 3 blynedd diwethaf.   Bydd y Cynghorydd Hinchey'n rhoi newyddion i Aelodau am ddarpariaeth adnoddau ar ran y Cabinet.

- Trafododd Aelodau les plant 8-11 oed, yn benodol y cyfeiriad at blentyn heb ffrindiau a'r cymorth y mae angen.  Mae'n bwysig cydnabod bod pryderon dros y plentyn a bod cymorth iddo wneud rhwydwaith ffrindiau newydd er enghraifft grwpiau, brownies neu'r geidiaid.

- Dywedodd Aelodau bod y ffigyrau yn cynrychioli plant a phobl ifanc yn gofyn am ragor o wybodaeth yn egluro pam maent yn derbyn gofal.  Derbynnir bod angen rhagor o ymdrech wrth gyfathrebu â phlant iau; mae'n rhaid i Weithwyr Cymdeithasol gynnal trafodaethau caled iawn a phobl ifanc, efallai y penderfynir peidio ag egluro yn syth am nifer o resymau gwahanol.  Bellach mae seicolegydd yn y tîm sy'n rhoi cymorth i Weithwyr Cymdeithasol

allu cynnal y sgyrsiau hyn, ac i'w cynorthwyo nhw

- Dywedwyd wrth Aelodau y caiff yr Arolwg Dy Fywyd, Dy Ofal cyfan ei gyhoeddi ac mae Caerdydd wedi cytuno i gael ei enwi yn yr arolwg hwn.  Dywedodd Aelodau y dylid cynnal arolwg Dy Fywyd, Dy Ofal bob 2 flynedd.

- Trafododd Aelodau'r angen am ddigwyddiad i drafod ymatebion, argymhellion pobl ifanc yn yr arolwg â nhw, yn ogystal â sut y gweithredwyr yr argymhellion.

18 : MATERION BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

19 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD MAWRTH 17 HYDREF

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm